


Valérieane Leblond



Enw: Valérieane Leblond

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu? Yn Angers, yn Ffrainc

Ble aethoch chi i'r ysgol? Yn Angers, ac yn Rennes ac yn Nantes

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol? Roedd fi wrth fy modd gydag ysgol, yn arbennig llenyddiaeth a chelf, a chael gweld ffrindiau pob dydd

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny? Roedd fi eisiau ysgrifennu straeon!

Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn? Roedd fi'n hoff iawn o'r llyfr *The Ox-Cart Man* gan Donald Hall a Barbara Cooney, a hefyd *Where the Wild Things Are* gan Maurice Sendak. Nhw yw fy hoff lyfrau hyd heddiw!






Beth yw eich diddordebau? Rwy'n hoffi darlunio, mynd am dro, gweld ffrindiau a bwyta pethau neis.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus? Cael hwyl gyda fy meibion.

Beth sy'n eich gwylltio chi? Pan mae pethau yn annheg, a phan mae pobl llwus yn anwybyddu pobl sy'n llai llwus â nhw

Pryd ddechreuoch chi feddwl am fod yn ddarlunydd? Pan oeddwn i'n blentyn bach ac yn dysgu darllen, roedd gen i'r syniad o wneud fy llyfrau fy hun hefyd yn barod!

Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu? Pan oeddwn i yn yr ysgol gynradd – roeddwn i'n hoff iawn o ysgrifennu creadigol ac roedd gyda fi athrawes wych i annog fi



O ble rydych chi'n cael eich syniadau? O bob man: hanes, straeon, pobl, byd natur... mae popeth yn gallu bod yn ysbrydoliaeth! Pan rydw i'n darlunio rwy'n gwneud llawer o ymchwil cyn dechrau llun i neud yn siŵr bod fy lluniau yn gywir o rhan hanes, anatomeg ayyb.

Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch? Rwy'n hoffi'r cysylltiadau rhwng y gorffennol a heddiw, fan hyn a fan draw, a sut rydyn ni gyd yn rhannu un byd. Rwy'n hoffi gweld y pethau tebyg rhwng pobl o bob man, a beth yw 'cartref'.

Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio darlunio? I ymarfer yn rheolaidd, i arbrofi pethau newydd fel paent, crayons ayyb. ac i fwynhau y proses creadigol be bynnag yw'r canlyniad

Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu? Fel awdur, rwy'n credu bod pob llais yn cyfri ac yn bwysig, ac i fynd amdani heb poeni, ond rwy'n credu hefyd bod e'n pwysig cael cynllun clir o ble mae'r stori yn mynd, wedyn bydd y testun yn dod yn hawdd

Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn ddarlunydd? Y peth gorau am fod yn ddarlunydd yw derbyn testun hyfryd gan awdur a chael y baint o gymryd rhan yn y broses o greu llyfr. Y peth gwaethaf am fod yn ddarlunydd yw bod rhaid gweithio gyda deadline yn aml iawn: mae'n gallu bod yn stressful ac weithiau mae'n rhaid gorffen lluniau hyd yn oed os does dim digon o amser i gyrraedd y safon rwy eisiau.

Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur? Mae'n anhygoel dal llyfr gorffenedig gyda fy enw arno, ond rwy'n poeni o hyd bod safon fy Saesneg neu fy Nghymraeg ddim yn digon da a dydw i ddim yn awdur go iawn!

Cwestiynau Cyflym:

Hoff lyfr o'ch plentyndod?

The Ox-Cart Man, gan Donald Hall a Barbara Cooney

Hoff gymeriad o lyfr?

Marion Duval, yn y cyfres nofelau graffeg gan Yvan Pommaux

Hoff le? Cegin Mam-gu

Hoff fwyd? Bara sy newydd pobi

Hoff ffilm/rhaglen deledu? *Wall-e*

Hoff air? 'Nuage' yn ffrangeg, mae'n meddwl cwmwl, a mae'n ysgafn yn y geg jyst fel cwmwl

Superpower o ddewis? Teleportation

Hoff rhwydwaith cyfryngau cymdeithasol? Instagram – mae'n wych i ddylunydd

Beth sy'n gwneud i chi wenu? Jôcs fy meibion

Swydd tase chi dim yn awdur? Swydd ddelfrydol? Efallai athrawes, neu rywbeth creadigol arall.

Top tip i ddarlunwyr y dyfodol: Ymarfer darlunio, arbrofi gyda phethau newydd a sugno mewn popeth sy o'n gwmpas fel ysbrydoliaeth

Top tip i ddarpar awduron: Cadw llyfr nodiadau o hyd i ysgrifennu syniadau, brawddegau a thynnu lluniau